

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

HUGHES, RICHARD (1794 - 1871), argraffydd a chyhoeddwr

Enw: Richard Hughes
Dyddiad geni: 1794
Dyddiad marw: 1871
Priod: Anne Hughes (née Jones)
Plentyn: Charles Hughes
Rhiant: Mary Hughes
Rhiant: Hugh Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyhoeddwr
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Thomas Bassett

Mab Hugh a Mary Hughes, Brynhaulog, Adwy'r Clawdd, sir Ddinbych. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol Evans, Minera, ac aeth oddi yno i weithio yn ariandy Kendrick yn Hope Street, Wrecsam. Ar ôl tymor byr yno aeth i felin bapur isaf Bersham i ofalu am y llyfrau cyfrifon, a phan fu Broseley y perchennog farw ymhen ysbaid fe barhaodd y felin i weithio o dan enw Hughes and Phillips. Priododd Anne Jones (1797 - 1827). Agorodd stordy papur yn Bank Street, Wrecsam, yn 1820, ac erbyn 1823 yr oedd ganddo siop lyfrau ac argraffdy yn 1 a 2 Church Street. Penodwyd Richard Hughes yn gofrestrydd cyntaf priodasau'r rhanbarth yn 1837, ac yn bostfeistr y dref yn 1840. Ymunodd ei fab **Charles** â'r fusnes yn 1848, a thrwy ddylanwad y llyfrau a'r gerddoriaeth a gyhoeddwyd ganddynt aeth tŷ cyhoeddi Hughes a'i Fab yn enwog ymhlith Cymry ym mhob rhan o'r byd. Gweithiodd yn ddiwyd ynglŷn â chrefydd a'r ysgolion Saboth yn ogystal ag yn ei fusnes. Bu farw ym Mrynhyfryd, Wrecsam, 12 Ionawr 1871.

Awdur

Thomas Bassett, (1889 - 1956)

Ffynonellau

Thomas Bassett, *Braslun o hanes Hughes a'i Fab* (Wrecsam 1946)
Wrexham Advertiser, 21 Ionawr 1871

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734280](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953
Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA



Bassett, T., (1953). HUGHES, RICHARD (1794 - 1871), argraffydd a chyhoeddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-RIC-1794>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government